# Cynllun y Bathodyn Glas: hawliau a chyfrifoldebau ar gyfer sefydliadau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Darllenwch y daflen hon cyn defnyddio'r bathodyn neu ganiatáu i'ch gweithwyr cyflogedig ei ddefnyddio. Cadwch y daflen hon yn ddiogel er mwyn troi ati yn y dyfodol.



| Cofnodwch wybodaeth ddefnyddiol yma fel ei bod ar gael bob amser | |
|---|---|
| Rhif cyfresol y bathodyn | |
| Rhoddwyd gan (enw eich awdurdod lleol) | |
| Cyfeiriad swyddfa'r awdurdod lleol | |
| Rhif ffôn y swyddfa | |
| Dyddiad y daw'r bathodyn i ben | |

Mae'r daflen hon yn berthnasol i Gymru'n unig.

Efallai nad yw'r consesiynau yr un fath â'r rhai yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, felly dylech holi'r awdurdod perthnasol pan fyddwch yn teithio dros Glawdd Offa.

ISBN 978 0 7504 7322 3

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru
Diweddarwyd Chwefror 2012
WG14601 / G/MH/4276 / Chwefror
Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2012

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Cynllun y Bathodyn Glas** | **4** |
| | **Pwy sy'n gymwys i gael Bathodyn Glas?** | **5** |
| **1.** | **Eich cyfrifoldebau fel deiliad Bathodyn Glas** | **7** |
| | Sut i arddangos y bathodyn | 9 |
| | Pryd i ddefnyddio cloc parcio | 10 |
| | Awdurdod i archwilio bathodyn | 10 |
| | Adnewyddu'r bathodyn | 11 |
| | Bathodyn arall yn lle un sydd wedi'i golli neui'i ddwyn | 11 |
| | Dychwelyd y bathodyn | 11 |

| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **2.** | **Ble allaf i barcio?** | **13** |
| | Lle gallwch chi barcio | 14 |
| | Llefydd i edrych arnynt cyn parcio | 16 |
| | Llefydd na chewch chi barcio | 18 |
| | Parcio'n ddiogel a chyfrifol | 19 |
| **3.** | **Gwybodaeth arall** | **21** |
| | Consesiynau tollau | 21 |
| | Gyrru yn Llundain | 22 |
| | Cynllun Tâl Atal Tagfeydd Canol Llundain | 22 |
| | Teithio dramor | 23 |


# Cynllun y Bathodyn Glas

Nod y cynllun hwn yw helpu pobl anabl sydd â phroblemau symud difrifol i gael gafael ar nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau eraill, trwy ganiatáu iddynt barcio'n agos i'w cyrchfan.

Mae'r cynllun yn darparu detholiad cenedlaethol o gonsesiynau parcio ar y stryd ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas.

Nid yw'r cynllun yn berthnasol i feysydd parcio oddi ar y stryd fel rhai sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol, ysbytai ac archfarchnadoedd. Darllenwch yr arwyddion yn y meysydd parcio hyn i weld pa amodau sydd mewn grym.

*Efallai y bydd consesiynau'n amrywio wrth deithio y tu allan i Gymru i rannau eraill o'r DU. Holwch yr awdurdod perthnasol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.*



Mae'r daflen yn nodi lle gall deiliaid barcio ar y stryd, a lle na allant barcio, a sut dylent ddefnyddio'r Bathodyn Glas sefydliad yn iawn.

## Bathodyn Glas sefydliadau

**Gall rhai sefydliadau gael Bathodyn Glas i'w roi ar gerbyd (neu gerbydau) a ddefnyddir i gludo pobl anabl a fyddai'n gymwys i gael Bathodyn Glas eu hunain.**

Dim ond sefydliadau sy'n gofalu am bobl anabl ac yn eu cludo  a fyddai'n gymwys i gael Bathodyn Glas unigol eu hunain, fydd yn cael Bathodynnau.

## Pwy sy'n gymwys i gael Bathodyn Glas unigol?


Gall unigolyn fod yn gymwys i gael bathodyn os yw dros ddwy oed ac yn:

- derbyn Cyfradd Uwch Elfen Symudedd Lwfans Byw i'r Anabl; neu
- wedi'i gofrestru'n ddall (â nam difrifol ar y golwg); neu'n
- derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel; neu
- yn derbyn cyfandaliad dan Gynllun (Iawndal) y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd wrth Gefn o fewn lefelau tariff 1-8 (cynwysedig) ac wedi'i asesu a'i ardystio fel person sydd ag anabledd parhaol a sylweddol sy'n golygu nad yw'n gallu cerdded neu'n cael anhawster mawr i gerdded; neu

- sydd â nam parhaol a sylweddol sy'n golygu nad yw'n gallu cerdded neu'n cael anhawster mawr i gerdded.

Hefyd, gall plant dan dair oed fod yn gymwys i gael bathodyn os yw un neu'r ddau o'r disgrifiadau canlynol yn berthnasol iddynt:

- plentyn sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu bod rhaid cludo cyfarpar meddygol swmpus ar ei gyfer bob amser, sy'n anodd iawn ei gario o gwmpas;
- plentyn sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu bod angen i gerbyd fod wrth law drwy'r amser, naill ai i gael triniaeth yn y cerbyd neu er mwyn cludo'r plentyn yn gyflym i gael triniaeth yn rhywle arall.



Sut mae defnyddio'r Bathodyn Glas yn iawn ?



# 1 Eich cyfrifoldebau fel deiliad Bathodyn Glas

Cyfrifoldeb y sefydliad yw gofalu bod ei weithwyr cyflogedig yn defnyddio'r bathodyn yn iawn.

Dim ond gweithwyr y sefydliad sy’n cael defnyddio’r bathodyn a’i gonsesiynau, a hynny er mwyn cludo pobl anabl a fyddai’n gymwys i gael Bathodyn Glas eu hunain (gweler uchod). Ni ddylai gweithwyr byth defnyddio’r bathodyn er eu budd eu hunain neu ei ddefnyddio, er enghraifft, wrth gyflawni gwaith arall ar ran y sefydliad. Dim ond pan fydd pobl anabl yn cael eu cludo y gellir defnyddio’r bathodyn.

Dylai holl weithwyr cyflogedig y sefydliad sy’n gyfrifol am gludo pobl anabl wybod beth yw rheolau’r cynllun fel y’u heglurir yn y daflen hon, fel nad ydynt yn camddefnyddio’r bathodyn yn ddiarwybod iddynt.

Mae’n drosedd i unrhyw un gamddefnyddio’r bathodyn, a gallai arwain at ddirwy o £1,000.

*Ni ddylech fyth roi’r bathodyn i eraill y tu allan i’ch sefydliad chi er mwyn iddynt fanteisio ar y consesiynau parcio.*

*Peidiwch byth â chopïo’r bathodyn na cheisio newid y manylion.*

*Mae’r bathodyn yn parhau’n eiddo i’r awdurdod lleol a’i dosbarthodd.*

*Gallant ofyn i chi ddychwelyd y bathodyn os yw’n cael ei gamddefnyddio.*




# Sut i arddangos y bathodyn

Dim ond pan fo gweithwyr cyflogedig y sefydliad yn gollwng neu gasglu pobl anabl cymwys o'r fan lle mae'r cerbyd wedi'i barcio y dylid arddangos y bathodyn.

Wrth ddefnyddio'r consesiynau parcio, rhaid arddangos y bathodyn ar banel offer y cerbyd, lle gellir ei ddarllen yn glir drwy'r ffenestr flaen. Os nad oes panel offer yn nhu blaen eich cerbyd, rhaid i chi arddangos y bathodyn mewn man lle gellir ei ddarllen yn glir o'r tu allan i'r cerbyd. Dylai tu blaen y bathodyn wynebu ar i fyny, gan ddangos symbol y gadair olwyn. **Ni ddylai'r ochr sy'n dangos stamp neu logo'r sefydliad fod yn weladwy drwy'r ffenestr flaen.**

**Gallech gael dirwy parcio am arddangos y bathodyn yn anghywir.**




*Cloc parcio glas*



# Pryd i ddefnyddio cloc parcio

Pan fyddwch chi'n parcio ar linellau melyn neu mewn mannau eraill gyda chyfyngiadau amser, mae angen i chi arddangos y cloc parcio glas i ddangos eich amser cyrraedd. Dylech osod y cloc i ddangos y cyfnod chwarter awr y gwnaethoch chi gyrraedd yno. Dylai'r cloc gael ei anfon i'ch sefydliad gyda'r Bathodyn Glas sefydliad. Os na fyddwch wedi cael un, gofynnwch i'ch awdurdod lleol.

# Awdurdod i archwilio bathodyn

Mae gan swyddogion yr heddlu, wardeiniaid traffig, swyddogion parcio a swyddogion gorfodi sifil yr hawl i archwilio bathodynnau. Dylai'r bobl hyn ddangos cerdyn adnabod gyda'u llun arno i brofi mai'r bobl hynny ydyn nhw mewn gwirionedd. Ni ddylai gweithwyr y sefydliad wrthod cais i ddangos y bathodyn neu fe fyddant yn torri'r gyfraith a gallent gael dirwy o hyd at £1,000.

## Adnewyddu'r bathodyn

Dylai sefydliad wneud cais am fathodyn newydd gan yr awdurdod lleol rai wythnosau cyn iddo ddod i ben. Gallwch wneud hyn ar-lein **www.direct.gov.uk/bluebadge**

**Peidiwch â defnyddio'r bathodyn os yw wedi dod i ben.**

## Cael bathodyn arall yn lle un sydd wedi'i golli neu'i ddwyn

Rhaid i'r sefydliad wneud cais i'w awdurdod lleol am fathodyn arall os cafodd ei golli neu ei ddwyn. Gallwch hefyd roi gwybod i'ch awdurdod lleol trwy ddefnyddio Gwasanaeth Gwella'r Bathodyn Glas yn **http://www.direct.gov.uk/en/index.htm**


## Dychwelyd y bathodyn

Rhaid dychwelyd y bathodyn yn ddiogel i'ch awdurdod lleol:

- os yw'r sefydliad wedi dod i ben;
- os nad yw'r sefydliad yn gofalu am unigolion a fyddai'n gymwys i gael Bathodyn Glas eu hunain mwyach;
- os yw'r bathodyn wedi'i ddifrodi neu'n anodd ei ddarllen;
- os ydych wedi cael bathodyn arall yn lle un sydd wedi'i golli neu'i ddwyn, a'ch bod wedi dod o hyd i'r gwreiddiol wedyn (rhaid dychwelyd y bathodyn gwreiddiol);
- os nad oes angen y bathodyn ar y sefydliad mwyach.

Cofiwch roi gwybod i'ch awdurdod lleol os yw'r sefydliad yn newid ei gyfeiriad.








**Os ydych chi’n parhau i arddangos bathodyn nad yw’n ddilys bellach (am un o’r rhesymau uchod) gallai’r sefydliad gael hyd at £1,000 o ddirwy.**

Eich awdurdod lleol sy’n gweinyddu a gorfodi cynllun y Bathodyn Glas, a dylech gysylltu â nhw’n gyntaf bob amser am fwy o wybodaeth.

Gallwch ddod o hyd i’ch awdurdod lleol yn

**http://www.direct.gov.uk/en/Dl1/Directories/DevolvedAdministrations/DG_065241**

Beth yw'r rheolau ?



2

# Ble allaf i barcio?


Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r consesiynau parcio sydd ar gael i chi fel deiliad Bathodyn Glas sefydliad.

Cofiwch ddarllen yr arwyddion bob amser i weld beth yw'r rheolau parcio.

# Ble gallwch chi barcio

| Lleoliad | Amodau |
|---|---|
| Llinellau melyn | Gall deiliaid bathodynnau barcio ar linellau melyn dwbl neu sengl am hyd at deirawr, ond nid lle ceir cyfyngiadau llwytho a dadlwytho – fel y dangosir gan linellau melyn ar ymyl y palmant a/neu arwyddion ar blatiau. Os oes cynlluniau lleol mewn grym, gwiriwch y rheolau ar gyfer yr ardal honno.<br>**Nid oes gennych hawl i barcio ar linellau melyn mewn meysydd parcio oddi ar y stryd.**<br>**Mae’n rhaid i chi arddangos y Bathodyn Glas** a’r cloc parcio glas sy’n dangos y cyfnod chwarter awr y gwnaethoch chi gyrraedd.<br>Mae’n rhaid i chi ddisgwyl am o leiaf awr ar ôl cyfnod parcio blaenorol cyn y gallwch barcio’r un cerbyd yn yr un ffordd neu yn yr un rhan o’r ffordd ar yr un diwrnod. |





| **Lleoliad** | **Amodau** |
|---|---|
| Peiriannau talu am barcio 'ar y stryd' a pheiriannau talu ac arddangos | Gall deiliaid bathodynnau barcio am ddim am faint bynnag o amser ag y dymunant.<br>**Rhaid i chi arddangos y Bathodyn Glas.** |
| Llefydd parcio i'r anabl 'ar y stryd' (Arwyddion gyda symbol cadair olwyn glas) | Gallwch barcio am ddim, heb gyfyngiad amser, oni bai bod yr arwyddion yn nodi'n wahanol (darllenwch yr arwyddion lleol am wybodaeth).<br>**Rhaid i chi arddangos y Bathodyn Glas sefydliad.**<br>Ceisiwch ddefnyddio'r cilfannau parcio hyn bob amser yn hytrach na pharcio ar linellau melyn. |

# Llefydd i edrych arnynt cyn parcio


Mae angen i chi ystyried nifer o waharddiadau a chynlluniau parcio lleol. Dyma restr o'r llefydd hynny a'r cyfyngiadau parcio sydd ar waith. Os nad ydych yn sicr, gofynnwch i'r awdurdod perthnasol cyn teithio.

| Lleoliad | Amodau |
|---|---|
| Meysydd parcio oddi ar y stryd (fel meysydd parcio archfarchnadoedd, ysbytai neu awdurdodau lleol)   | Dylai darparwyr meysydd parcio oddi ar y stryd neilltuo gofodau parcio i bobl anabl. Fodd bynnag, perchennog y maes parcio fydd yn penderfynu a gaiff deiliaid bathodynnau barcio am ddim. **Peidiwch â chymryd yn ganiataol y cewch chi barcio am ddim bob amser.** |

| **Lleoliad** | **Amodau** |
|---|---|
| Canol trefi lle mae cynlluniau lleol ar waith | Darllenwch yr arwyddion lleol am wybodaeth. |
| Ardaloedd parcio ar y stryd lle y gall pob gyrrwr barcio am ddim am gyfnod cyfyngedig yn unig | Gall deiliaid bathodynnau barcio am gyfnod amhenodol oni bai bod arwyddion yn nodi'n wahanol. Edrychwch ar yr arwyddion cyn parcio. Os oes cyfyngiad amser, cofiwch arddangos y cloc parcio glas a'i osod i ddangos y cyfnod chwarter awr y gwnaethoch chi gyrraedd. |
| Systemau ffyrdd mewn meysydd awyr | Cysylltwch â'r maes awyr ymlaen llaw i holi am y trefniadau parcio. |
| Ffyrdd preifat | **Peidiwch â pharcio oni bai bod gennych ganiatâd y perchennog (perchnogion).** |




Ni chaniateir llwytho
24 awr y dydd
7 diwrnod yr wythnos, am o leiaf
4 mis yn olynol





Ni chaniateir llwytho am unrhyw gyfnod byrrach. Mae'r saeth yn dangos lleoliad a chyfeiriad y gwaharddiad



# Llefydd na chewch chi barcio

Nid yw'r Bathodyn Glas yn drwydded i barcio yn unrhyw le. Fel defnyddwyr eraill y ffyrdd, mae'n rhaid i chi ufuddhau i Reolau'r Ffordd Fawr. Dyma restr o'r llefydd na ddylech barcio ynddynt.

- Llefydd lle gwaherddir llwytho a dadlwytho, a nodir gan farciau ar ymyl y palmant.
- Llefydd parcio sydd wedi'u neilltuo ar gyfer defnyddwyr penodol fel llefydd i breswylwyr neu fannau llwytho.
- Croesfannau i gerddwyr (croesfannau sebra, pelican, twcan a phâl) gan gynnwys mannau wedi'u marcio â llinellau igam ogam.
- Clirffyrdd (dim stopio).
- Clirffordd safle bws yn ystod oriau gweithredu.
- Clirffordd drefol yn ystod ei oriau gweithredu. Gallwch godi neu ollwng teithwyr, ond nid parcio yma.
- Ar farciau 'cadwch yn glir' ger ysgol yn ystod yr oriau a ddangosir ar arwydd melyn dim stopio.





- Lonydd bysiau, tramiau neu feicio. Nid oes gan ddeiliaid bathodynnau hawl i yrru mewn lonydd bysiau yn ystod eu horiau gweithredu.
- Pan fo llinellau gwyn dwbl ar ganol y ffordd (hyd yn oed os yw un o'r llinellau'n doredig).
- Mannau parcio lle mae'r peiriant talu wedi'i atal neu ar adegau pan waherddir defnyddio'r peiriant.
- Pan fo cyfyngiadau parcio dros dro ar waith, er enghraifft mannau lle ceir conau dim aros.

## Parcio'n ddiogel a chyfrifol

**Peidiwch** â pharcio lle gallai hynny beryglu, rhwystro neu beri anghyfleustod i ddefnyddwyr ffyrdd eraill. Mae enghreifftiau o barcio peryglus neu rwystrol yn cynnwys y canlynol, er bod enghreifftiau eraill i'w cael hefyd:

- mynedfeydd ysgol, safleoedd bws, ar gornel, neu ger ael bryn neu bont grom;
- parcio gyferbyn â chyffordd neu o fewn 10 metr (32 troedfedd) iddi, ac eithrio mewn lle parcio swyddogol;




- lle byddai hynny'n gwneud y ffordd yn gul, fel gerllaw ynys draffig neu waith ffordd;
- lle byddai hynny'n arafu llif y traffig, fel mewn rhannau cul o'r ffordd neu greu rhwystr o flaen mynedfeydd cerbydau;
- lle mae cerbydau'r gwasanaeth brys yn stopio neu fynedfeydd y gwasanaethau brys, fel mynedfeydd ysbytai;
- lle mae'r palmant wedi'i ostwng neu'r ffordd wedi'i chodi i helpu defnyddwyr cadair olwyn; ac
- ar balmant, oni bai bod arwyddion yn caniatáu hynny.

**Nid yw'r Bathodyn Glas yn drwydded i barcio yn unrhyw le. Os ydych chi'n parcio lle byddai'n achosi rhwystr neu berygl i ddefnyddwyr ffyrdd eraill, gallech gael dirwy neu gallai eich cerbyd gael ei symud.**

**COFIWCH**

Nid yw'n gyfreithlon i glampio olwynion cerbyd y sefydliad ar briffordd gyhoeddus ('ar y stryd') am droseddau parcio, os oes Bathodyn Glas dilys wedi'i arddangos yn briodol arno yn unol â rheolau'r cynllun.


Mae parcio mewn llefydd gwaharddedig neu lle byddai hynny'n peryglu neu'n rhwystro defnyddwyr eraill y ffyrdd yn drosedd, a gall arwain at ddirwy parcio. Gellir erlyn eich sefydliad, llusgo'ch car i ffwrdd a chymryd y bathodyn oddi arnoch.


# 3 Gwybodaeth arall


## Consesiynau tollau

Mae’n bosibl y gellir eithrio deiliaid Bathodynnau Glas rhag talu tollau ar rai croesfannau afonydd. Mae manylion y consesiynau ar gael ar wefan Directgov yn

**http://www.direct.gov.uk/en/DisabledPeople/MotoringAndTransport/Bluebadgescheme/DG_181209**





# Gyrru yn Llundain

Nid yw'r cynllun Bathodyn Glas ar waith mewn rhai rhannau o Ganol Llundain. Os ydych chi'n bwriadu ymweld â Chanol Llundain, dylech gael mwy o wybodaeth am barcio cyn teithio.

Cysylltwch â'r fwrdeistref berthnasol yn Llundain neu ewch i **www.bluebadgelondon.org.uk** am wybodaeth.

# Cynllun Tâl Atal Tagfeydd Canol Llundain

Gall cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan sefydliadau yn unswydd i gludo pobl anabl a fyddai'n gymwys i gael Bathodyn Glas eu hunain, gofrestru am ostyngiad 100% o'r Tâl Atal Tagfeydd.

I fod yn gymwys, rhaid cofrestru'n gyntaf gyda Transport for London a thalu ffi cofrestru o £10. Mae angen i chi wneud cais o leiaf 10 diwrnod cyn eich taith. Mae mwy o wybodaeth i ddeiliaid yn

**http://www.tfl.gov.uk/roadusers/congestioncharging** neu drwy ffonio **0845 900 1234**.

## Teithio dramor

Gallwch ddefnyddio'r bathodyn wrth deithio yn yr Undeb Ewropeaidd ond mae'r consesiynau'n amrywio. Os ydych chi'n ansicr, ceisiwch gael gafael ar wybodaeth leol cyn teithio i rywle newydd. Caiff y Bathodyn Glas ei gydnabod ledled yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae hyn yn golygu y gallwch chi fanteisio ar y consesiynau parcio sydd ar gael yn holl wledydd eraill yr UE.

Cofiwch y gallai'r consesiynau a ddarperir yng ngwledydd eraill yr UE fod yn wahanol i'r rhai a geir yn y DU. Gallwch lawrlwytho rhestr lawn o gonsesiynau'r UE yn

**http://www.direct.gov.uk/en/DisabledPeople/MotoringAndTransport/Bluebadgescheme/DG_4001061**

Gall consesiynau mewn gwledydd eraill yn yr UE newid dros amser, felly dylech edrych pa gonsesiynau sydd ar gael cyn teithio. Ar hyn o bryd, nid oes trefniadau i chi allu defnyddio'r bathodynnau y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, mewn gwledydd fel UDA, Canada, Awstralia neu Seland Newydd er y gallent fod yn barod i gydnabod y Bathodyn Glas. Dylech edrych pa gonsesiynau sydd ar gael cyn i chi deithio i wledydd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd.



